**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Datblygu Polisi Lleihau Tlodi

**O bell drwy Microsoft Teams**

**Dydd Llun, 26 Gorffennaf 2021 am 3.30 pm**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd P Downing (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| C R Doyle | P K Jones | L R Jones |
| D Phillips | C Richards | K M Roberts |
| L V Walton | | |

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Gareth Borsden | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd |
| Amy Hawkins | Pennaeth Dros Dro'r Gwasanaethau i Oedolion |
| Anthony Richards | Poverty and Prevention Strategy and Development Manager |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wyr): D W Helliwell a/ac E T Kirchner

---

**8 Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.**

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

**9 Cofnodion.**

**Penderfynwyd** cymeradwyo cofnodion y Pwyllgor Datblygu Polisi Lleihau Tlodi a gynhaliwyd ar 28 Mehefin 2021 fel cofnod cywir.

**10 Diwygiad Strategaeth Trechu Tlodi Cyngor Abertawe.**

Cyflwynodd Anthony Richards, Rheolwr Strategaeth a Datblygiad Tlodi a'i Atal, adroddiad a oedd yn ceisio adolygu a diweddaru Strategaeth Trechu Tlodi Cyngor Abertawe 2017 - 2020.

Amlinellodd y cefndir a'r rhesymeg y tu ôl i gyflwyno'r strategaeth wreiddiol a nododd fod y ddogfen ddiwygiedig a amlinellwyd yn fan cychwyn ar gyfer trafodaethau ac ymgynghori drwy gydgynhyrchu â phartneriaid a'r cyhoedd.

Amlinellodd a manylodd ar y sail bresennol ar gyfer y strategaeth ar draws y cyngor, cyfeiriodd at y tri phrif ddiffiniad o dlodi a amlinellir ym mharagraff 2.2 o'r adroddiad,

ac amlinellodd y chwe phrif faes y mae'r strategaeth newydd yn sefydlu gweledigaeth ar eu cyfer ar gyfer y dyfodol.

Cyfeiriodd at y naw maes i'w cynnwys/hychwanegu at y ddogfen newydd fel yr amlinellir ym mharagraff 2.4 o'r adroddiad.

Trafododd yr aelodau'r strategaeth ddiwygiedig arfaethedig ac awgrymwyd yr ychwanegiadau ynghylch y meysydd canlynol: - ychwanegu addysg uwch a hyfforddiant galwedigaethol (2.4.2), ychwanegu paragraff sy'n manylu ar grynodeb o'r prif feysydd llwyddiannau/mentrau a ychwanegwyd yn ystod oes y strategaeth a chyfeirio at syniadau llai llwyddiannus, er mwyn rhoi cyd-destun i'r adroddiad.

Gofynnodd yr aelodau hefyd gwestiynau a chodwyd ymholiadau ynghylch strwythur yr awdurdod a gweithio trawsadrannol ar faterion tlodi ac effaith COVID ar ddarparu gwasanaethau, yr ymatebodd y swyddogion iddynt yn briodol.

Yna cyfeiriodd swyddogion at y prif ddatblygiadau dros y blynyddoedd, a nodwyd y gellid dosbarthu'r wybodaeth berthnasol i'r aelodau a'i hychwanegu at yr adroddiad fel yr awgrymwyd. Byddai'r strategaeth ddiwygiedig arfaethedig wedyn yn dod yn ôl i'r pwyllgor hwn i'w thrafod yn dilyn y broses ymgynghori yn y flwyddyn newydd.

**Penderfynwyd** bod y Pwyllgor Datblygu Polisi Lleihau Tlodi yn cymeradwyo Diwygiad Strategaeth Trechu Tlodi Cyngor Abertawe fel a nodwyd yn Adran 2 yr adroddiad hwn (yn amodol ar y diwygiadau/ychwanegiadau a amlinellir uchod) fel man cychwyn i gydgynhyrchu fersiwn derfynol gyda'n partneriaid a'n cymunedau.

## 11 Datblygiad Polisi Adennill Dyledion Personol Corfforaethol.

Cyflwynodd Anthony Richards, Rheolwr Strategaeth a Datblygiad Tlodi a'i Atal, adroddiad a oedd yn ceisio gweithio tuag at fabwysiadu polisi sy'n gwreiddio ymagwedd gorfforaethol at adennill dyledion personol.

Mae'r adroddiad yn nodi rhai o'r mathau o ddyled bersonol a fyddai'n rhan o unrhyw bolisi newydd, ac yn cyfeirio at y problemau sy'n ymwneud â adennill dyledion y mae'n rhaid i'r awdurdod ymgymryd â hwy'n gyfreithiol.

Trafododd yr aelodau y problemau sy'n ymwneud â'r modd y dylai'r cyngor fod yn adennill dyledion, yn enwedig o ran geiriad y llythyrau cychwynnol, a nodwyd bod rhoi cyngor ac opsiynau ar gyfer talu a pheidio â chaniatáu i ddyled gynyddu yn faterion allweddol i'w hystyried.

Amlinellodd y Cadeirydd y cynnig i gynnal cyfres o weithgorau gyda swyddogion perthnasol i ymchwilio i'r mater. Cefnogodd aelodau'r pwyllgor hyn a gofynnwyd i gopïau o lythyrau perthnasol a anfonwyd at ddyledwyr i ddechrau fod ar gael i'w trafod yn y cyfarfod cyntaf.

**Penderfynwyd**

1) sefydlu Gweithgor Pwyllgor Datblygu Polisi Lleihau Tlodi ynghyd â chynrychiolwyr gwasanaeth perthnasol a wahoddir i ddatblygu Polisi Adennill Dyledion Personol Corfforaethol.

2) cynnal cyfarfod cyntaf y grŵp am 2.30pm ddydd Llun 23 Awst 2021.

**12 Cynllun Gwaith 2021-2022.**

Cyfeiriodd y Cadeirydd at gynllun gwaith y pwyllgor ar gyfer 2021-2022, yn amodol ar ychwanegu'r gweithgor ar 23 Awst fel yr amlinellir yng nghofnod 11 uchod.

**Penderfynwyd** y dylid nodi'r cynllun gwaith.

Daeth y cyfarfod I ben am 4.36 pm

**Cadeirydd**